**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Sarah Murphy AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Mai 2024

**Adolygu Rheol Sefydlog 29**

Annwyl Sarah,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 10 Mai a oedd yn cynnwys ystyriaethau pellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar Reol Sefydlog 29 – Cydsyniad mewn perthynas â biliau Senedd y DU.

Bu’r Pwyllgor Busnes yn ystyried eich llythyr yn ein cyfarfod ar 14 Mai a nododd y materion pellach yr ydych wedi’u nodi sydd wedi codi mewn perthynas â Rheol Sefydlog 29.1, yn benodol, wrth ystyried y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol.

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes yn disgwyl ystyried ei waith ar y broses cydsyniad deddfwriaethol ymhellach, gan gynnwys y materion a godwyd gennych, cyn toriad yr haf. Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad am y cynnydd ar y mater hwn.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.